People's Plan for Nature

# Nodiadau Cyfarfod 2 Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl - Crynodeb

20fed Hydref 2022

## Crynodeb o'r Cyfarfod

Hwn oedd ail gyfarfod Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl. Cynhaliwyd y cyfarfod ar-lein gan ddilyn yr agenda ganlynol:

- **Cyflwyniadau**
- **Cynllun Natur y Bobl, diweddariad ar y prosiect ehangach**
- **Diweddariad dylunio a ddilynwyd gan drafodaeth yn canolbwyntio ar:**
  - **Fflagiau coch neu fylchau allweddol ar gyfer siaradwyr penwythnos 1;**
  - **Adborth ar benwythnosau 2 a 3 - ffocws ar gynnwys**
  - **Awgrymiadau o ran siaradwyr ar gyfer penwythnosau 2 a 3**
- **Y diweddaraf am y Sgwrs Genedlaethol sy'n bwydo i mewn i'r Cynulliad**
- **Unrhyw fater arall**

### Presennol yn y Cyfarfod

Aelodau'r grŵp cynghori: Aekus Kamboj, Sarah Hendry, Chloe Saltmarsh, Hedd Pugh (rhan gyntaf y cyfarfod), Nadeem Perera, Nick Halfhide, Tom Chigbo, Russel De'ath, Meriwether Wilson, Anurag Deb, Dr Rebecca Lovell, Ali Morse, Miranda Geelhoed (hanner awr cyntaf y cyfarfod); Arweinyddion academaidd: Pete Smith a Nathalie Seddon; Involve (Cadeirydd); Cynrychiolwyr tîm y prosiect o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF a'r Prosiect Dinasyddiaeth Newydd

### Ymddiheuriadau

Thomasina Miers (sgwrs ddilynol wedi'i chynnal), John Watkins, Tony Juniper, Sarah Royal

## Crynodeb o'r drafodaeth

Rhoddodd y Grŵp Cynghori adborth manwl ar benwythnos 2 a phenwythnos 3 y bydd tîm y prosiect yn mynd gyda nhw i weithio ar fersiwn nesaf y dyluniad. Dyma rai themâu a ddeilliodd o'r adborth hwnnw:

- Adolygu'r amcanion emosiynol a rhesymol ar gyfer pob sesiwn er mwyn sicrhau nad oes sefyllfa wedi'i phennu ymlaen llaw y mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu cyfeirio ati.
- Dod â gwybodaeth i mewn am linellau sylfaen symudol ac esboniadau o wahanol ddiffiniadau a dehongliadau o natur.
- Rhoi ystyriaeth ofalus i hygyrchedd y cynnwys a'r gweithgareddau y bydd y Cynulliad yn eu gweld ac y gofynnir iddo eu gwneud. Mae angen cydbwysedd rhwng gwybodaeth academaidd ac ymateb emosiynol gan gyfranogwyr; er enghraifft, yr ymarfer llunio gweledigaeth i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon.
    - Meddwl sut y gellir dwyn ymarferion gweledol a chreadigol i mewn hefyd.
- Sicrhau bod sgyrsiau ynghylch y cysylltiad â natur a sut mae hynny'n edrych mewn gwahanol leoliadau. Cael siaradwyr o gymunedau gyda gwahanol gysylltiadau a lefelau mynediad at natur.
- Defnyddio adrodd straeon fel ffordd bwerus o gyfleu gwybodaeth i gyfranogwyr y Cynulliad.
- Ystyried ail-fframio allbynnau terfynol y trafodaethau gan ddefnyddio'r canlynol:
    - lleihau pwysau
    - ail-ddylunio systemau
    - ei adfer
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r hyn sy'n bosibl yn y gwledydd datganoledig wrth egluro pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag unrhyw heriau.
- Adolygu'r rhaniad cyffredinol a theitlau penwythnosau 2 a 3 ac adolygu'r fframio bod tirweddau gwarchodedig a thirweddau sy'n cael eu gweithio ar wahân a chynnwys mwy ar gymhlethdod y dewisiadau o ran sut mae tir yn cael ei ddefnyddio. Ystyried gwrthdroi trefn penwythnosau 2 a 3 a fframio hyn yn fwy fel sbectrwm defnydd tir yn hytrach na gwahaniaethu clir rhwng tir gwarchodedig a thir sy'n cael ei weithio.
    - Mae angen ystyried lle mae morluniau a dŵr croyw yn ffitio yn hyn hefyd.

- Sut fydd y Cynulliad yn ystyried pa effeithiau y bydd newidiadau a wneir yma yn eu cael yn fyd-eang hefyd?
- Ystyried sut y mae'r angen am addysg ynghylch llawer o'r materion hyn yn cael ei gynnwys yng nhrafodaethau'r Cynulliad.

## Y Camau Nesaf

- Involve i ail-ddosbarthu pecyn cyfryngau cymdeithasol Cynllun Natur y Bobl
- Involve i siarad yn uniongyrchol ag NFU Cymru yng nghyswllt awgrymiadau ar gyfer siaradwyr yn mhenwythnosau 2 a 3
- Y tîm dylunio i ail-lunio amcanion emosiynol er mwyn sicrhau nad oes sefyllfa wedi'i phennu ymlaen llaw y mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu cyfeirio ati.
- Y tîm dylunio i ddiweddaru'r gwaith dylunio ar gyfer penwythnos 1 a sesiynau briffio i siaradwyr yn seiliedig ar adborth y Grŵp Cynghori.
    - Gwahoddodd yr Athro Nathalie Seddon i roi rhagor o fewnbwn ar y sesiwn briffio ar gyfer y cyflwyniad rhagarweiniol y bydd Nathalie yn ei ddarparu yn y Cynulliad.
- Y tîm dylunio i adolygu a diweddaru cynlluniau cynnwys ar gyfer penwythnosau 2 a 3 yn seiliedig ar adborth y Grŵp Cynghori a dosbarthu fersiwn wedi'i ddiweddaru cyn Cyfarfod 3.
- Involve i ddosbarthu sleidiau a gyflwynwyd a sleidiau NCP a'r Grŵp Cynghori i rannu unrhyw adborth pellach neu awgrymiadau ar gyfer siaradwyr.